Adeiladu twr



Bydd angen dis a blociau neu friciau lego ar gyfer y gêm hon.

- Cymerwch dro.
- Rholiwch y dis.
- Casglwch nifer y briciau sydd eu hangen i adeiladu eich twr.
- Y cyntaf i 10 sy'n ennill!

Am newid, dechreuwch gyda 10 bloc neu 10 bric yr un. Tynnwch y rhif sydd ar y dis. Y cyntaf i sero sy'n ennill.

Rholio siâp

Torrwch 12 siâp.

Gwnewch 3 thriongl, 3 sgwâr, 3 phetryal a 3 chylch.

- Cymerwch dro i rolio'r dis a chasglu siâp â'r nifer hynny o ochrau, e.e. rholio 4, casglwch sgwâr.
- Yr un cyntaf i gael pedwar siâp gwahanol sy'n ennill.
- Os gallwch enwi pob siâp, chi sy'n mynd yn gyntaf y tro nesaf!



Targedau i ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Derbyn 2

Erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu…

- ☐ Dweud un, dau, tri, pedwar … hyd at ddau ddeg.
- ☐ Cyfrif hyd at 10 eitem .
- ☐ Adnabod y rhifau ysgrifenedig 1, 2, 3, 4… hyd at 9.
- ☐ Defnyddio geiriau fel *mwy, llai, trymach, ysgafnach* i gymharu pethau.
- ☐ Dod o hyd i 1 yn fwy neu 1 yn llai nag unrhyw rif o 1 i 10.
- ☐ Adio dau grŵp bach o bethau (cyfanswm 10 neu lai).
- ☐ Cyfrif sawl un sydd ar ôl pan fydd rhai pethau'n cael eu tynnu.
- ☐ Gwneud patrymau syml a siarad amdanynt.
- ☐ Enwi siapiau fel *cylch, sgwâr, triongl, petryal, ciwb, côn* a *sffêr***.**
- ☐ Defnyddio geiriau fel *dros, o dan, uwchben, islaw, ar, yn, nesaf at, yn ymyl,* i ddisgrifio ble mae pethau.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn Dderbyn.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd e.e efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif i 10 yn dal i gael trafferth i ddweud pa rif sy'n dod ar ôl 5. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gychwyn ar 1 a chyfrif ymlaen.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Rhigymau

Dysgwch unrhyw rigymau neu ganeuon rhif yr ydych chi yn eu gwybod, yn enwedig rhai sy'n gofyn am ddal nifer o fysedd i fyny. Beth am ymarfer y rhain yn aml, gyda'r symudiadau.
Gallwch gael caneuon cyfrif ar dâp am bris rhesymol iawn.

Cyfrif gyda dis

Cymerwch dro i rolio dis a chyfrif yn ôl i sero o'r rhif a daflwyd gan y dis. Er enghraifft:



Pedwar, tri, dau, un, sero!